thirtyone:eight

Creating safer places. Together.

# Adroddiad cryno
# Archwiliad o Drefniadau Diogelu ar gyfer Yr Eglwys yng Nghymru/Church in Wales

| | |
|---|---|
| Cynhyrchwyd ar gyfer: | Wendy Lemon |
| | Rheolwr Diogelu |
| | Yr Eglwys yng Nghymru /Church in Wales |
| Cynhyrchwyd gan: | Dawn Watson |
| | Uwch Gynghorydd Diogelu |
| Sicrhawyd Ansawdd gan: | Susan Stephen, Rheolwr Diogelu |
| Cymeradwywyd gan: | Karen Eakins, Pennaeth Diogelu |
| Fersiwn | 1 |
| Dyddiad: | 31 / 03 / 2023<br>25/04/2023 (Crynodeb) |

# Cyflwyniad

## Rheswm dros ofyn am archwiliad diogelu

Dyma adroddiad cryno o archwiliad Diogelu penodol a gomisiynwyd gan Yr Eglwys yng Nghymru/Church in Wales gyda'r bwriad o gynnal adolygiad allanol annibynnol o'i phrosesau a'i pholisïau diogelu. Gofynnwyd i Thirtyone:eight gwblhau'r archwiliad fesul cam gyda rhai meysydd blaenoriaeth allweddol yn cael eu hadolygu eleni, gan roi cyfle i'r Esgobaeth ymgorffori unrhyw gamau gweithredu a awgrymir cyn cynnal adolygiad pellach yn y dyfodol.

Mae'r Archwiliad i ddilyn fframwaith Thirtyone:eight sy'n seiliedig ar safonau ac yn unol â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru wrth ddarparu adroddiad archwilio sy'n tynnu sylw at gryfderau, meysydd lle mae gwendid ac argymhellion o gamau gweithredu i gryfhau diogelu ar gyfer y sefydliad ar ddiwedd yr aseiniad.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi profi cyfnod sylweddol o newid wrth benodi rolau rheoli allweddol, ac mae'r rhain wedi arwain at newidiadau o ran strwythur a llywodraethu. Bu ffocws o'r newydd ar sut mae diogelu'n cael ei reoli, ac mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddaru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gofynnwyd i Thirtyone:eight ganolbwyntio'r archwiliad ar dri maes blaenoriaeth allweddol:

- Llywodraethu
- Polisi Diogelu
- Gweithio gyda'r rhai a allai beri risg.

## Ynglŷn â Thirtyone:eight

Mae Thirtyone:eight yn elusen Gristnogol yn y DU sy'n darparu ystod o wasanaethau i gefnogi eglwysi a sefydliadau eraill sy'n seiliedig ar ffydd i amddiffyn pobl fregus. “Ein gweledigaeth yw byd lle mae pob plentyn ac oedolyn yn gallu teimlo, a bod, yn ddiogel”. Ein nod yw gwneud hyn drwy gymhwyso, grymuso ac annog sefydliadau i greu amgylcheddau mwy diogel, ymateb i gamdriniaeth, a chodi eu safonau o ran arferion diogelu. Daw ein henw o Diarhebion 31 adnod 8 sy’n dweud wrthym am Siarad ar ran y di-lais, a thros hawliau pawb sy'n agored i niwed.

Rydym yn sefydliad diogelu blaenllaw yn y sector ffydd ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi sefydliadau, gan gynnwys: Gwasanaeth gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant diogelu, cymorth polisi, ymgynghori, archwiliadau diogelu, asesiadau risg, adolygiadau achos a chyngor diogelu rhyngwladol.

## Methodoleg

Yn ystod yr archwiliad diogelu adolygwyd nifer o ddogfennau i gynorthwyo'r broses asesu. Roedd y rhain yn cynnwys dogfennau polisi Diogelu a pholisïau o'r adran Adnoddau Dynol. Roedd yr archwiliad hefyd yn edrych ar ddogfennau strategol yn ymwneud â diogelu a dogfennau proses fewnol ar gyfer Tîm Diogelu’r Dalaith.

Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o gyfweliadau dros Microsoft Teams gyda sbectrwm eang o unigolion sy'n ymwneud â Diogelu yn yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys yr Archesgob, Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth, aelodau o Dîm Diogelu’r Dalaith, aelodau o'r Panel Diogelu a'r Pwyllgor Diogelu.

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn ar adeg benodol ac felly mae'n rhoi cipolwg ar y trefniadau a'r diwylliant diogelu ar yr adeg y cynhaliwyd yr archwiliad. Mae canfyddiadau'r archwiliad yn seiliedig ar y dystiolaeth a welwyd ar yr adeg honno.

Mae hwn yn archwiliad annibynnol, yn seiliedig ar 10 Safon Diogelu Thirtyone:eight. Mae'r safonau hyn yn darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer archwilio sefydliad yn llwyddiannus, ac felly'n galluogi'r sefydliad hwnnw i gymryd rhan mewn diogelu arfer gorau. Gan fod yr ymarfer hwn ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru, wedi'i seilio ar ddetholiad o 3 maes o blith 10 safon Thirtyone:eight, mae'r rhifo a ddefnyddir yn yr Adroddiad hwn yn seiliedig ar drefn y meysydd hyn o fewn safonau Thirtyone:eight (h.y., Safonau 1, 3 a 10)

| **Crynodeb o'r Archwiliad** |
| --- |
| Cryfderau<br><br>At ei gilydd, canfu adolygydd bod yr archwiliad penodol hwn ar ddiogelu yn yr Eglwys yng Nghymru yn y tri maes y gofynnwyd i Thirtyone:eight eu hadolygu; llywodraethu, polisïau diogelu a gweithio gyda'r rhai a allai beri risg, mewn lle cadarnhaol iawn.<br><br>Roedd llawer yn cydnabod bod llawer iawn o waith wedi'i wneud yn y tri maes hollbwysig hyn ac mae hyn wedi cynnwys adolygu polisïau, gweithdrefnau a'r buddsoddiad mewn staff.<br><br>Siaradodd nifer o gyfranogwyr am y diffyg strwythur llywodraethu clir blaenorol ac roeddent yn teimlo bod hyn wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf gyda recriwtio'r Cyfarwyddwr Diogelu a Chadeirydd Annibynnol y Panel Diogelu a ffurfio'r Pwyllgor Diogelu.<br><br>I ddechrau, roedd yn ymddangos bod diffyg eglurder ynghylch lle'r oedd diogelu yn eistedd o fewn y sefydliad ac er bod gan y Prif Esgob y cyfrifoldeb am ddiogelu, mewn gwirionedd, roedd yn cael ei reoli gan y tîm staff Diogelu a phanel diogelu a oedd yn adolygu pob achos y bu'r tîm diogelu yn ymchwilio iddo. Darparwyd yr holl ddogfennau cysylltiedig i aelodau'r panel ar gyfer yr achosion, ond cynhaliwyd yr adolygiad yn ysgafn, oherwydd bod nifer cynifer o achosion yn cael eu hadolygu a'u hailadrodd yn rheolaidd.<br><br>Yn sgil recriwtio Cadeirydd Annibynnol a fu gynt yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol cafwyd dealltwriaeth newydd o'r angen am newid, ochr yn ochr ag argymhellion adroddiad[1] IICSA h.y., newid mewn uwch arweinyddiaeth ac awydd gwirioneddol i roi arferion gwaith effeithlon ar waith.<br><br>Gwnaed argymhellion y dylid recriwtio Cyfarwyddwr Diogelu, a bod gan yr unigolyn a gyflogir gefndir Diogelu'r Cyhoedd uwch gyda'r Heddlu. Mae hyn wedi hwyluso'r newidiadau o ran sut mae'r tîm Diogelu yn cael ei reoli ac adolygu dogfennau allweddol. Mae'r Cyfarwyddwr yn adrodd yn uniongyrchol i'r Panel, yr Archesgob, ac i'r Pwyllgor Diogelu.<br><br>Ffurfiwyd y Pwyllgor Diogelu tua blwyddyn i ddeunaw mis yn ôl ac mae'n cynnwys yr Archesgob, dau archddiacon, y rhai sydd â phrofiad cyfreithiol a'r rhai sydd â rolau allweddol yn yr eglwys o fewn ei chyfansoddiad. Eu rôl yw sefydlu cyfeiriad diogelu presennol yr Eglwys ac at y dyfodol. Maent yn goruchwylio gweithredu a chadarnhau dogfennau diogelu ar y lefel uchaf, gan roi proffil uwch i ddiogelu ar lefel llywodraethu. |

[1] Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)

Mae'n amlwg bod gan yr Archesgob ddealltwriaeth wirioneddol o ddiogelu ac awydd i'w ymgorffori yn yr eglwys ac mae ei fuddsoddiad o ran neilltuo amser i fynychu'r cyfarfod hwn yn bwysig.
Yn ogystal, mae wedi recordio neges fideo yn codi ymwybyddiaeth sydd ar gael ar y wefan Diogelu. Mae'r Archesgob wedi cychwyn hyfforddiant diogelu gorfodol i bob clerigwr sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd yr hyfforddiant.

Mae'r fenter i recriwtio swyddogion diogelu profiadol ar gyfer yr Ardaloedd Gweinidogaeth yn dal yn ei dyddiau cynnar, ond bydd hyn yn helpu i ddatganoli gwybodaeth i'r eglwysi lleol y maent yn gyfrifol amdanynt.

**Meysydd i'w Gwella**

Mynegodd y cyfranogwyr y siaradodd yr Adolygydd â nhw awydd gwirioneddol am welliant parhaus. Ar hyn o bryd, gan fod llywodraethu cliriach ar waith mae'n sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cadarnhau ar y lefel uchaf, ond mae hefyd yn amlwg bod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd i rannu'r weledigaeth hon yn ehangach â'r eglwysi lleol.

Soniwyd yn gyson am hyfforddian fel rhan annatod o rannu'r neges honno er nad oedd yn ffocws i'r archwiliad hwn. Roedd canmoliaeth i'r rhai sy'n darparu hyfforddiant, ond maent bellach wedi'u hintegreiddio'n well i'r strategaeth o rannu'r weledigaeth ddiogelu yn hytrach na gweithio ar wahân yn eu hardaloedd esgobaethol penodol. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol.

Maes a nodwyd nad oedd yn canolbwyntio'n weledol ar ddiogelu oedd y chwe Esgobaeth sy'n cwmpasu Cymru. Roedd y wybodaeth ar eu prif wefannau yn amrywiol iawn ac nid oedd unrhyw ymdeimlad o ddiogelu yn cael ei hyrwyddo yn eu cylchlythyrau na'u deunydd hyrwyddo. Deellir mai Tîm y Dalaith sy'n gyfrifol, ond mae'n debyg bod gwefannau'r Esgobaethau yn cael eu cyrchu'n fwy rheolaidd gan eglwys leol na gwefan yr Eglwys yng Nghymru. Byddai modd o ddarparu gwell mynediad at ddeunydd diogelu cyson ar draws pob un o'r 6 esgobaeth yn ased.

Negeseuon allweddol gan Lais y Bobl

Y negeseuon allweddol gan y rhai y siaradodd yr Adolygydd â nhw, oedd bod "llawer o waith i'w wneud o hyd ond eu bod yn gwneud cynnydd ardderchog". Gwnaeth llawer o bobl sylwadau ar eu hymrwymiad i ddiogelu ac nid oedd unrhyw ymdeimlad ei fod yn 'ymarfer ticio blwch'. Yn hytrach, roedd ymdeimlad cryf bod hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth, lle'r oedd pobl â phrofiad a gwybodaeth flaenorol wedi cynnig eu hunain i helpu i weithredu newidiadau, gyda llawer yn gwneud hyn yn wirfoddol.

Roedd llawer yn cydnabod gwaith parhaus yr hyfforddwyr a phwysigrwydd bod eu neges yn cyrraedd sawl rhan o fywyd yr eglwys. Mynegwyd fod yr hyfforddiant yn hygyrch ac ar gael i raddau helaeth ar bob lefel o'r sefydliad. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau bod meysydd fel cam-drin domestig, cam-drin ariannol, cosbi corfforol, a delweddau anweddus yn parhau'n feysydd sydd angen mynd i'r afael â nhw. Wrth symud ymlaen, cydnabuwyd hefyd bod gwaith i'w wneud o hyd mewn perthynas â'r cymorth a'r arweiniad ynghylch goroeswyr a recriwtio mwy diogel.

Roedd y rhai a gyfwelwyd, yn weithwyr cyflogedig a gwirfoddol, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gyffredinol yn teimlo bod y llwyth gwaith yn ymarferol ac yn cael ei oruchwylio'n dda.

**Argymhellion**

Mae'r argymhellion isod, yn nodi meysydd lle gellir hyrwyddo diogelu yn yr Esgobaethau ac annog eglwysi lleol i gofleidio bod yn Eglwys Ddiogel yn llawn.

| | |
|---|---|
| **Safon 1 –** Llywodraethu. | • Cronfa ddata Pobl Fy Eglwys i'w defnyddio fel adnodd i adnabod eglwysi lleol sy'n gofyn am lefelau uwch o gefnogaeth, hyfforddiant ac arweiniad.<br>• Gwybodaeth glir ar bob tudalen gwefan yr Esgobaeth sy'n rhoi arweiniad ar sut i geisio cymorth i ddioddefwyr, goroeswyr neu bartïon â buddiant.<br>• Dolenni gwe i'r Tîm Diogelu canolog i roi gwybod am bryderon neu sut i gysylltu â nhw.<br>• Cylchlythyrau'r esgobaethau i ganolbwyntio'n rheolaidd ar ddiogelu, hyrwyddo straeon newyddion da a nodi meysydd risg.<br>• Canllawiau clir i'w darparu ar gyfer plwyfi ynghylch y disgwyliad o lywodraethu o fewn yr eglwysi lleol.<br>• Canllawiau clir i ymddiriedolwyr (aelodau'r cyngor plwyf)<br>• Gwybodaeth arweiniol sy'n ei gwneud yn ofynnol i eglwysi gynnal asesiadau risg ar gyfer pob gweithgaredd, lleoliad a grŵp, gan ddarparu templed asesiad risg<br>• Pob dogfen bolisi i fynd i'r afael yn benodol â chyfrifoldebau diogelu i sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori ar draws gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru. |
| **Safon 3 –** Polisi Diogelu. | • Manylion cyswllt y Tîm Diogelu Taleithiol i'w hychwanegu at y Polisi Diogelu<br>• Adolygu'r Cyflwyniad i Ddiogelu a Hyrwyddo Arfer Mwy Diogel i Blant ac Oedolion sydd mewn Perygl gan ystyried cyfuno gwybodaeth.<br>• Ystyried y defnydd o hyperddolenni a chroesgyfeirio ar draws y dogfennau.<br>• Dogfennau cyngor, polisïau a chanllawiau Diogelu i'w hyrwyddo drwy gylchlythyr yr esgobaeth a'u lledaenu gan swyddogion diogelu'r ardaloedd gweinidogaeth yn rheolaidd.<br>• Mae'n ofynnol i eglwysi fod ag Ymrwymiad i Ddiogelu ar eu gwefannau.<br>• Adolygu'r Poster Diogelu i dynnu sylw at wybodaeth allweddol. |
| **Safon 10** – Gweithio gyda'r rhai a allai beri risg. | • Negeseuon clir o'r wybodaeth sydd ar gael i reoli'r rhai a allai beri risg.<br>• Mwy o wybodaeth am grwpiau cymorth ar gyfer troseddwyr, y rhai sy'n destun ymchwiliad neu eu teuluoedd. |

| **Cynhaliwyd yr Archwiliad gan:** | **Dyddiad cwblhau:** |
|---|---|
| Dawn Watson – Uwch Gynghorydd Diogelu | 29.03.2023 |

thirtyone:
eight

Creating safer places. Together.